# CYNLLUN SIARAD I GEFNOGI GOFALWYR DI-DÂL YN SIR DDINBYCH

Gofynnir i ofalwyr di-dâl yn Sir Ddinbych i gymryd rhan mewn cynllun siarad newydd.

Mae Pwyso i Siarad yn brosiect gan Gyngor Sir Ddinbych i helpu i fynd i'r afael â theimladau o unigrwydd ac arwahanrwydd ymhlith gofalwyr di-dâl.

Fe fyddant yn derbyn gwybodaeth ac offer y gallant ei ddefnyddio i gysylltu â gofalwyr di-dâl eraill er mwyn cael sgwrs ar amser a gytunir.

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth Sir Ddinbych:

“Mae'r prosiect newydd hwn yn helpu i roi cyswllt dynol i bobl sydd mewn sefyllfa debyg, gan eu galluogi i ryngweithio gyda gofalwyr di-dâl eraill o'u cartrefi eu hunain.

“Mae ychydig o gyswllt bob dydd wedi profi i helpu lles meddyliol a hunan-barch ac mae'r prosiect hwn hefyd yn darparu cymuned gefnogol."

Fel rhan o'i Gynllun Corfforaethol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi gofalwyr di-dâl drwy wella'r gwasanaethau sy'n bodoli eisoes a sicrhau bod gofalwyr ifanc, gofalwyr sy'n oedolion ifanc, yn rhieni ac yn oedolion yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â CandCteamCSS@sirddinbych.gov.uk